Cymorth Cynllunio Cymru

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn sefydliad elusennol, annibynol sy'n helpu unigolion a chymunedau ar draws Cymru i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y system gynllunio.
http://www.planningaidwales.org.uk

Comisiwn Dylunio Cymru

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn hyrwyddo pwysigrwydd dylunio da ar gyfer yr amgylchedd adeiledig, ar draws y sectorau, trwy gysylltu'r disgyblaethau dylunio. Mae'r Comisiwn yn cydweithio â'r dylunwyr sy'n llunio Cymru, i helpu cadw gwerth cyhoeddus mewn rhagoriaeth dylunio. Mae'r Comisiwn yn darparu cefnogaeth i gleientiaid, gwasanaethau ac adolygu dyluniadau.
http://dcfw.org

Participation Cymru

Amcan Participation Cymru yw cyflawni gwell ymgysylltiad cyhoeddus mewn dylunio, datblygu a chyflenwi gwasanaethau dinasyddion-ganolog ar gyfer pobl Cymru. Mae gan y wefan adnoddau ymarferol ar gynnal digwyddiadau ymgysylltu cymunedau.
http://www.participationcymru.org.uk/home

Canllawiau Cynllun Cynefin ar gyfer Ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi paratoi dogfen ganllaw i helpu cymunedau yn eu hardal i ysgrifennu eu Cynlluniau Cynefin eu hunain. Mae'n gosod y broses o gynhyrchu cynllun ac yn esbonio sut y gellir ei gyflenwi. Mae'n benodol ar gyfer cymunedau ym Mannau Brycheiniog ond gellir cymhwyso'r dull cyffredinol i unrhywle, a gall fod yn gyfeiriad defnyddiol ar gyfer y broses gyffredinol o baratoi Cynllun Cynefin ar gyfer cymunedau mewn mannu eraill.
https://www.beacons-npa.gov.uk/wp-content/uploads/Place-Plan-Toolkit-Shape-My-Brecon-Beacons.pdf

Lluniwch Fy Nhref

Mae Lluniwch Fy Nhref yn adnodd wedi ei baratoi ar ran Comisiwn Dylunio Cymru. Mae'n ganllaw 'sut i' sy'n rhoi'r offer i chi archwilio cynefin, hunaniaeth a'r hyn sy'n ei wneud yn unigryw ac i gynllunio ar gyfer ei ddyfodol. Mae'r wefan yn gosod y gwahanol ffyrdd i gael gwybodaeth allweddol am eich cynefin, ac mae ganddi ddolenni defnyddiol i brosiectau cymunedol ysbrydoledig, a darllen ychwanegol.
http://www.shapemytown.org/studying-your-town

Comisiwn Cefn Gwlad Cymru

Mae gan Gomisiwn Cefn Gwlad Cymru amrediad o wybodaeth gefndirol a all hysbysu eich gwaith desg, er enghraifft ar Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol; mae'r adnodd yma'n arbennig o ddefnyddiol pan yn gwneud Asesu Cymeriad: http://naturalresourceswales.gov.uk/evidence-and-data/?lang=en

Y Lle

Y Lle yw Porth Llywodraeth Cymru ar gyfer data amgylcheddol. Mae ganddo offer mapio defnyddiol sy'n rhoi gwybodaeth fel adeiladau rhestredig ac ardaloedd coedwigoedd hynafol, y gallwch eu printio allan. Mae'r adnodd yma'n arbennig o ddefnyddiol pan yn gwneud Asesu Cymeriad:
http://lle.gov.wales/map#m=-3.159,51.47832,8&b=europa

Rhwydwaith Cenedlaethol CLT

Mae Rhwydwaith Cenedlaethol yr CLT yn darparu ganllawiau ar sefydlu a rhedeg prosiect Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol.
http://www.communitylandtrusts.org.uk/

Canolfan Cydweithredol Cymru

Mae Canolfan Coop Cymru yn darparu ystod o arweiniad a chymorth i gymunedau sy'n bwriadu ymgymryd â phrosiectau a arweinir gan y gymuned.
https://cymru.coop/